Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Richard Parry Jones
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

20 Mehefin 2014

Annwyl Mr Parry Jones

**Ymweliad Monitro Estyn 10-12 Mehefin 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mai 2012, rhoddwyd yr awdurdod mewn mesurau arbennig. Cytunwyd ar gynllun monitro drwy eich arolygwyr cyswllt ac fe gynhaliwyd ymweliadau monitro ar 7-8 Tachwedd 2013 a 5-6 Chwefror 2014. Cynhaliwyd y trydydd a'r olaf o'r gyfres o ymweliadau monitro ar 10-12 Mehefin 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canfyddiadau terfynol monitro ôl-arolygiad Estyn.

Arweiniodd Iwan Roberts AEM dîm o dri arolygwr i arfarnu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn yr olaf o'r saith argymhelliad yn deillio o'r arolygiad gwreiddiol. Rhoddodd y tîm ystyriaeth hefyd i berfformiad yr awdurdod yn erbyn ei gynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Cafodd y tîm drafodaethau gyda'r deilydd portffolio, y prif weithredwr, uwch swyddogion, aelodau etholedig, cadeirydd y Bwrdd Adfer, penaethiaid ysgol, llywodraethwyr ysgolion a chynrychiolwyr partneriaid. Bu'r arolygwyr hefyd yn craffu ar ddogfennaeth gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, fe adroddodd y tîm i arweinydd y cyngor, y Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes, uwch swyddogion y gwasanaeth addysg a chadeirydd y Bwrdd Adfer ar eu canfyddiadau.

Barnwyd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn arolygiad Mai 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg A Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad yw'r awdurdod mwyach mewn mesurau arbennig ac nid oes angen gweithgaredd dilyniant pellach.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers yr arolygiad ym Mai 2012, mae newid a gwelliant arwyddocaol wedi digwydd dros gyfnod cymharol fyr, o fewn y gwasanaeth ysgolion ac yn gorfforaethol. Yn gynnar, roedd yr awdurdod wedi adnabod nifer o rwystrau i welliant gan ymateb yn briodol i'w

goresgyn.  Mae'r ailstrwythuro ar lefel penaethiaid gwasanaeth wedi cryfhau capasiti corfforaethol i arwain prosiectau trawsnewid i sicrhau gwelliannau penodol.  Un o'r prosiectau hyn yw moderneiddio ysgolion.  Caiff y prosiectau trawsnewid eu rheoli ar lefel uwch ac mae hyn wedi galluogi'r awdurdod i adeiladu consensws gwleidyddol cadarn o blaid blaenoriaethau'r cynllun gwella ôl-arolygiad.

Yn fuan ar ôl arolygiad 2012, fe gychwynnodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn ei swydd.  Bellach, mae swyddi pennaeth dysgu ac uwch swyddog safonau a chynhwysiant wedi eu llenwi ar sail parhaol.  Mae hyn yn cryfhau capasiti tîm rheoli'r gwasanaeth ysgolion drwy sicrhau ystod addas o arbenigedd a phrofiad. Ategir hyn gan arweinyddiaeth effeithiol yr Arweinydd Portffolio. O ganlyniad, mae perthynas y gwasanaeth â'r ysgolion wedi trawsnewid ac mae ysgolion bellach yn cyfrannu'n sylweddol at y diwylliant o wella parhaus sydd wedi gwreiddio'n gadarn o fewn yr awdurdod.

Mae gan aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o gyfrifoldebau'r awdurdod.  Maent yn ymwneud yn gynyddol â dal ysgolion i gyfrif ac mae trefniadau craffu'r cyngor wedi'u miniogi.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella ac mae swyddogion ac aelodau yn gweithio'n dda gyda'r Bwrdd Adfer sy'n darparu her allanol.

**Argymhelliad 1:  Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod pob dysgwr a all wneud hynny yn cyflawni llythrennedd gweithredol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2**

**Mae'r awdurdod wedi cyfarfod â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Mae perfformiad ysgolion Ynys Môn wedi gwella ers 2011 ac mae bellach uwchlaw cyfartaledd Cymru ym mhob cyfnod allweddol.  Yn y Cyfnod Sylfaen, ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, mae mwyafrif yr ysgolion yn y 50% uchaf.  Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes ysgol yn y 25% isaf ar unrhyw un o'r pum prif ddangosydd.  Serch hynny, mae mwyafrif yr ysgolion yn y 50% isaf ar ddau o'r dangosyddion hyn.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion yn ysgolion Ynys Môn sy'n cyflawni lefelau uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol yn well na mewn ysgolion tebyg.

Mae safonau mewn darllen, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi gwella yn y ddwy flynedd diwethaf. Serch hynny, mae perfformiad mewn darllen yn y Gymraeg yn parhau yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched ar y dangosydd pwnc craidd yn llai nag ydyw ledled Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r gwahaniaeth yn fwy.  Serch hynny, mae'r bwlch wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r perfformiad yn parhau yn is.

Yn dilyn arolygiad 2012, mae’r awdurdod wedi adolygu'r cytundeb partneriaeth ag ysgolion yn ogystal â’i addasu ymhellach i adlewyrchu'r bartneriaeth â GwE, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae’n amlinellu rôl yr awdurdod a rôl ysgolion mewn perthynas â chefnogi, monitro a herio yn dda. Mae’r cynllun yn amlinellu disgwyliad priodol ar i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain ac i arwain y drafodaeth ar wella. Mae’r her o du’r awdurdod, yn ogystal â mewnbwn gan ymgynghorydd allanol, wedi arwain at newid arwyddocaol mewn diwylliant. Mae arweinwyr rhan fwyaf o ysgolion y sir yn ymgysylltu’n dda â gweithgareddau gwella ar y cyd ac mewn partneriaethau. Er yn ei ddyddiau cynnar, mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod cydweithio ysgol-i-ysgol yn esgor ar welliannau mewn medrau arweinyddiaeth, ac yn ansawdd yr addysgu, mewn nifer cynyddol o achosion.

**Argymhelliad 2: Cynllunio’n fwy effeithiol gyda’r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion**

**Mae’r awdurdod wedi cyfarfod â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Mae’r awdurdod wedi gwneud cynnydd da iawn wrth gynllunio’n effeithiol gyda’r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion.

Mae gweithdrefnau’r awdurdod i fonitro a hybu presenoldeb dysgwyr yn cael effaith gadarnhaol. Mae swyddogion, ysgolion ac asiantaethau perthnasol wedi cydweithio’n effeithiol i ffurfio polisi clir ar gyfer hybu presenoldeb da. Mae’r rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r polisi ac yn cydymffurfio ag ef yn briodol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella yn y sectorau cynradd ac uwchradd ers yr arolygiad craidd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn y sector uwchradd wedi codi 2.3 pwynt canran dros ddwy flynedd. O gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd 80% o ysgolion yn y 50% uchaf yn 2013.

Yn y sector cynradd, bu cynnydd cyson dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae’r cyfartaledd presenoldeb yn y sector hwn yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae’r awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau priodol i ddadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr.

**Argymhelliad 3: Sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg i broffesiynoli cyflwyno gwasanaethau addysg yn weithredol.**

**Mae’r awdurdod wedi cyfarfod â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth**.

Ers yr arolygiad, mae’r gwasanaeth addysg wedi mynd ati i ffurfioli a chysoni ei gyfundrefnau mewnol gan gynnwys ei brosesau cynllunio busnes, cynllunio prosiect ac asesu risg. Mae hyn wedi arwain at sefydlu sylfeini cadarnach a strwythurau penodol sy’n hyrwyddo gwell cysondeb ar draws y gwasanaeth. Mae’r uwch swyddogion, o dan arweiniad pwrpasol y cyfarwyddwr dysgu gydol oes, wedi sicrhau bod cydweithwyr ar draws y gwasanaeth wedi cyfrannu at ddatblygu’r prosesau hyn.

O ganlyniad, mae yna ymdeimlad uchel o berchnogaeth ac ymrwymiad clir i'r cyfundrefnau newydd gan staff ar bob lefel.

Erbyn hyn, mae'r cynllunio yn cynnig cyfeiriad clir i waith y gwasanaeth dysgu gydol oes ac mae swyddogion a chydweithwyr yn gweld gwerth i'r prosesau hyn. Mae'r cyfundrefnau yn rhoi sylw priodol i hunan arfarniad, asesiad effeithiau ac asesiad risg. Mae'r llinyn sy'n deillio o'r cynlluniau corfforaethol i'r cynllunio adrannol ac yna i'r cynlluniau personol yn glir ac mae staff ar bob lefel yn deall yn well eu cyfraniad unigol tuag at wireddu nodau ac amcanion y gwasanaeth.

Mae eu cynlluniau personol yn cynnwys targedau a meini prawf llwyddiant a chânt eu monitro yn chwarterol. Yn ogystal, mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i herio ac i drafod cynnydd yn erbyn y targedau. O ganlyniad, mae arwyddion clir bod yna gynnydd pwrpasol ac amserol i flaenoriaethau'r gwasanaeth addysg.

Mae gan yr awdurdod fecanwaith cadarn i adnabod a chofnodi risg. Caiff risgiau arwyddocaol eu huwchraddio i'r lefel gorfforaethol ac adolygir y gofrestr yn rheolaidd. Rhydd hyn gyfle i'r swyddogion ystyried ffyrdd o leihau'r risgiau ac i ymateb yn gytbwys a phriodol pan mae perygl o lithriad.

Mae'r adran dysgu gydol oes yn datblygu dulliau rheoli prosiect cadarn sy'n dechrau gwreiddio'n llwyddiannus. Mae nifer o staff wedi eu hyfforddi'n briodol yn y maes ac mae proses o gychwyn ac adrodd ar raglenni prosiect yn glir. Mae asesiadau risg yn gweithredu ochr yn ochr â phob prosiect. O ganlyniad, mae camau cadarn wedi eu cymryd i ddatblygu blaenoriaethau'r awdurdod.

**Argymhelliad 4: Cynllunio effeithlonrwydd gwell wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes**

**Mae'r awdurdod wedi cyfarfod â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth**.

Mae effeithlonrwydd yr awdurdod wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth dysgu gydol oes wedi gwella ers yr arolygiad craidd ac mae bellach yn dda.

Mae atebolrwydd swyddogion i aelodau etholedig wedi cynyddu'n sylweddol, a bellach ceir nifer o bwyllgorau a byrddau sy'n trafod materion cyllidol yn effeithiol. O ganlyniad, mae aelodau etholedig mewn gwell sefyllfa i herio swyddogion a sicrhau gwell rheolaeth o'r cyllid sydd ar gael.

Mae gan yr awdurdod afael priodol ar ysgolion sy'n gorwario. Mae swyddogion wedi adolygu ac atgyfnerthu eu harweiniad yn effeithiol i benaethiaid ynglŷn â rheoli cyllid, gan osod disgwyliadau clir iddynt ar y wybodaeth sydd angen iddynt ei chynnwys yn eu cynlluniau datblygu mewn perthynas ag unrhyw orwario neu danwario sylweddol. Mae hyn yn cael sylw ar agenda ymweliadau rheolaidd swyddogion ag ysgolion. Er mwyn cynorthwyo ysgolion sydd mewn diffyg, mae'r awdurdod wedi datblygu cynlluniau adfer priodol. Drwy fonitro effeithiol, mae'r awdurdod yn medru adnabod yn gynnar yr ysgolion sy'n debygol o orwario a chynnig arweiniad iddynt i reoli eu cyllid yn well. Mae swyddogion yr awdurdod yn cydweithio ag ychydig o ysgolion er mwyn mynd i'r afael â gorwariant.

Mae gan yr awdurdod reolaeth dda ar y gyllideb integreiddio.  Mae'r swyddogion yn monitro gwariant yn rheolaidd ac yn blaengynllunio yn effeithlon er mwyn darparu'n briodol ar gyfer anghenion unigolion o fewn y gyllideb sydd ar gael. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013/14, mae'r gorwariant wedi ei ddileu yn llwyr yng nghyllidebau integreiddio'r sectorau cynradd ac uwchradd.

Rhoddir sylw priodol i rymuster y trefniadau ar gyfer monitro a chyllido lleoliadau nas cynhelir.  Sefydlwyd Grŵp Ansawdd Blynyddoedd Cynnar a datblygwyd cyfundrefn ar gyfer categoreiddio'r lleoliadau cyn-ysgol yn seiliedig ar ansawdd y safonau a'r ddarpariaeth.  O ganlyniad, mae'r swyddogion yn adnabod y lleoliadau'n well ac yn mynd i'r afael â rhai sy'n tanberfformio, drwy ddarparu cyngor a chymorth iddynt ar gyfer gwella.  Tynnir y cyllid oddi arnynt mewn achosion prin lle nad yw'r lleoliad wedi ymateb yn llwyddiannus i'r cyngor a'r cymorth a ddarparwyd.

Ers ei sefydlu, mae Consortiwm ôl-16 Môn a Gwynedd wedi cymryd camau sylweddol mewn cyfnod byr.   Mae'r cynllun gweithredu a luniwyd yn cynnwys targedau penodol sydd wedi'u hamserlennu'n addas.  Mae ystod gynyddol o ddewisiadau cyrsiau galwedigaethol wedi eu cynllunio, gan roi ystyriaeth dda i ofynion cyfredol ynghyd â natur tebygol gwaith ar Ynys Môn  i'r dyfodol.  Mae cydweithio agos iawn rhwng y pum ysgol uwchradd a rhwng yr ysgolion a'r Coleg, gan anelu i sicrhau'r dewisiadau ehangaf posibl mewn modd cost effeithiol.

**Argymhelliad 5:  Sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb yn y gofynion ar gyfer hunanarfarnu yn weithredol ac yn strategol**

**Mae'r awdurdod wedi cyfarfod â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Ers yr arolygiad, mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer hunanarfarnu er mwyn adnabod cryfderau ac anghenion gwella wedi cryfhau.  Mae arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu a chysoni trefniadau hunanarfarnu ar draws gwasanaethau'r awdurdod.  Mae'r darparwyr gwasanaeth yn deall y trefniadau hunanarfarnu ac yn cael eu cynnwys yn briodol ynddynt.  Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth gynyddol o'u cyfraniad unigol tuag at nodau strategol y gwasanaeth addysg.

Darparodd yr awdurdod adroddiad hunanarfarnu ar gyfer yr ymweliad sydd yn arfarnol, yn fanwl gywir ac yn nodi cryfderau a meysydd sydd angen sylw.  Mae'r swyddogion addysg yn cynnal cyfarfodydd cyson er mwyn olrhain cynnydd a herio staff ynglŷn â'r datblygiadau yn eu meysydd cyfrifoldeb.  Bellach mae fformat cyffredin ar gyfer cynllunio ar draws y gwasanaethau sy'n hwyluso'r broses o hunanarfarnu, asesu effaith ac asesu risg.

Mae swyddogion y gwasanaeth addysg yn adnabod eu gwasanaethau a'u hysgolion yn dda.  Cyflwyna swyddogion GwE, sef y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, arfarniad cytbwys o berfformiad ysgolion i'r awdurdod.   Mae'r broses o osod targedau wedi'i miniogi trwy wneud defnydd mwy deallus o'r data, gan gynnwys rhoi sylw priodol i drothwyon perfformiad teuluoedd prydau ysgol am ddim a llinellau atchwel.  Bellach, mae'r awdurdod yn monitro ac arfarnu perfformiad ac yn herio ysgolion ac adrannau pynciau unigol yn llawer mwy effeithiol.  Defnyddia'r awdurdod y canllawiau yn y cytundeb partneriaethau diwygiedig i gategoreiddio'r ysgolion er mwyn adnabod ysgolion sydd angen her ychwanegol neu gefnogaeth i wella.  Mae'r

broses yn dryloyw, ac yn drwyadl.  Ar y cyfan, mae'r adroddiadau a gyflwynir i Estyn cyn arolygiad am ysgolion unigol yn gytbwys ac yn adlewyrchiad teg o'r ysgolion tan sylw.

Mae swyddogion yn cyflwyno arfarniad cywir o berfformiad ar draws yr awdurdod i'r aelodau etholedig.  Mae'r awdurdod wedi sefydlu Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion sy'n cynnwys aelodau etholedig i graffu'n fanwl ar berfformiad ysgolion unigol sy'n tangyflawni a'u dwyn i gyfrif.  Mae wyth ysgol eisoes wedi eu dwyn gerbron y grŵp ac mae cyfarfodydd pellach wedi eu trefnu yn y dyfodol agos.  Er yn ei ddyddiau cynnar, mae gwaith y grŵp wedi codi lefelau atebolrwydd yn ogystal â darparu gwybodaeth uniongyrchol werthfawr i'r aelodau etholedig am berfformiad ysgolion ar draws y Sir.

Mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle i sicrhau atebolrwydd a chraffu effeithiol. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen rhesymoli'r gyfundrefn wrth i'r broses aeddfedu. Darpara'r awdurdod ganllawiau a hyfforddiant defnyddiol i aelodau'r byrddau craffu ac mae'r aelodau yn datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl.

Ar lefel gorfforaethol, mae blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu llywio gan fyrddau prosiect sy'n arddel disgyblaethau rheoli prosiect yn effeithiol. O ganlyniad, mae cynnydd amserol a phriodol wrth gyflawni nodau gweithredu'r prosiectau unigol.

**Argymhelliad 6:  Cymryd camau i leihau nifer y lleoedd dros ben**

**Mae'r awdurdod wedi cyfarfod yn rhannol â'r argymhelliad hwn.**

Gwnaed cynnydd da wrth weithredu prosiectau band A o'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 21ain ganrif.  Yn ogystal mae Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer yr holl raglen wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cyfalaf perthnasol wedi ei sicrhau.  Mae'r awdurdod wedi penderfynu cau un ysgol gynradd yn Awst 2014 ac adeiladu dwy ysgol gynradd newydd i ddisodli chwech o ysgolion eraill erbyn Awst 2016.  Bydd y cynlluniau hyn yn cael gwared â bron i 150 o lefydd o'r sector cynradd ac yn lleihau'r canran llefydd sy'n wag o fewn y sector o'r 16.7% presennol i 13.4%.  Mae amseriad y prosiectau unigol yn sicrhau y bydd yr awdurdod wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o uchafswm o 15% o lefydd gweigion yn y sector cynradd erbyn Ionawr 2016.

Mae'r awdurdod yn gwneud defnydd da o adnoddau ac arbenigedd mewnol i ddatblygu a rheoli prosiectau.  Ble mae angen hynny, mae'n gweithio'n effeithiol â phartneriaid allanol.  Mae'r cydweithio buddiol ag asiantaeth arbenigol i gwblhau'r achos amlinellol strategol ar gyfer un o'r ysgolion newydd wedi datblygu medrau a chapasiti staff ar gyfer datblygu prosiectau dilynol.  Manteisiwyd ar arbenigedd o fewn awdurdodau eraill i ddatblygu cynlluniau adeiladu sy'n cyfarfod â gofynion y sir ac yn sicrhau gwerth am arian.

Mae'r awdurdod yn datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cynyddu capasiti arweinyddol a rheolaethol ysgolion.  Mae'r elfennau craidd yn cynnwys datblygu cefnogaeth ysgol-i-ysgol, hyrwyddo medrau arwain a rheoli penaethiaid ac ymyrryd pan fo swydd pennaeth cynradd yn dod yn wag.  Mae gwaith buddiol wedi ei wneud i ddatblygu modelau perthnasol o reoli clystyrau o ysgolion cynradd.

**Argymhelliad 7: Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion**

**Mae'r awdurdod wedi cyfarfod â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.**

Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn amlinellu'r disgwyliadau ar ysgolion yn glir ac mae arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o'r gofynion a'r goblygiadau sydd ynghlwm â'i weithredu. Mae hyn, a defnydd effeithiol iawn gan y gwasanaeth o ddata perfformiad, yn gosod sail gadarn ar gyfer herio ysgolion a chytuno ar dargedau. Yn ychwanegol, mae trefniadau addas yn eu lle i herio ysgolion drwy gydweithio ar gynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau Estyn.

Mae dealltwriaeth yr aelodau etholedig o gryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd sydd angen gwella wedi datblygu'n dda ers arolygiad 2012. Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir i aelodau etholedig yn gyson dda ac, o ganlyniad, maent yn fwy grymus wrth ddal ysgolion i gyfrif. Mae'r gwasanaeth dysgu gydol oes wedi darparu hyfforddiant cynhwysfawr i aelodau etholedig ar herio ysgolion. Mae hyn yn cefnogi gwaith y grŵp adolygu cynnydd ysgolion wrth graffu ar berfformiad ysgolion unigol sy'n tangyflawni. O ganlyniad, mae ansawdd yr her i arweinyddion yr ysgolion hyn wedi'u grymuso.

Mae'r ailstrwythuro o fewn y gwasanaeth addysg gydol oes wedi ehangu capasiti'r gwasanaeth a chryfhau llinellau atebolrwydd. Mae cynlluniau busnes yr adran yn cysylltu'n effeithiol â chynlluniau busnes uwch swyddogion unigol. O ganlyniad, mae'r rhain yn dylanwadu'n gynyddol ar brosesau rheoli perfformiad swyddogion gan gynnwys gosod targedau personol ystyrlon a heriol.

**Camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, gan gyflawni eu rôl cyswllt arferol.

Rwyf yn copio'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru